**Rebecca Evans AC/AM**
**Gweinidog Iechyd y Cyhoedd a Gwasanaethau Cymdeithasol**
**Minister for Social Services and Public Health**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: MA-L/RE/0086/17

Dr. Dai Lloyd AC
Cadeirydd y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Tŷ Hywel,
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

6 Mawrth 2017

Annwyl Dai,

**Bil Iechyd y Cyhoedd (Cymru)**

Dywedais yn ystod y ddadl ar egwyddorion cyffredinol a gynhaliwyd yr wythnos ddiwethaf imi ystyried yn fanwl argymhelliad y Pwyllgor y dylid diwygio adran 92 y Bil er mwyn codi'r cyfyngiad arfaethedig ar oed, o 16 i 18, mewn perthynas â rhoi twll mewn rhan bersonol o'r corff.

Soniais yn ystod y ddadl fy mod wedi gofyn i swyddogion roi sylw manwl i'r mater hwn unwaith yn rhagor yn sgil y dystiolaeth a gafwyd yn ystod Cam 1, ac y byddwn yn rhoi gwybod i'r Aelodau ynghylch canlyniadau hynny cyn gynted â phosibl. Gallaf bellach gadarnhau bod y gwaith wedi ei gwblhau, ac y byddaf yn cyflwyno gwelliannau ar ran y Llywodraeth yn ystod Cam 2 er mwyn gwneud y newid a argymhellwyd gan y Pwyllgor.

Hoffwn ddiolch i'r Pwyllgor am y sylw manwl y mae wedi ei roi i'r mater pwysig hwn, ac rwy'n hyderus y bydd y newidiadau arfaethedig yn sicrhau mwy o ddiogelwch i blant a phobl ifanc Cymru.

Byddaf yn anfon fy ymateb i weddill argymhellion y Pwyllgor maes o law.

Anfonwyd copi o'm llythyr at Rhun ap Iorwerth, Angela Burns and Caroline Jones.

Cofion,

Rebecca

**Rebecca Evans AC / AM**
Y Gweinidog Iechyd y Cyhoedd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Minister for Social Services and Public Health

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Correspondence.Rebecca.Evans@gov.wales
Gohebiaeth.Rebecca.Evans@llyw.cymru

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.